GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (NORTH STREET, RHAEADR GWY, POWYS) (GWAHARDD AROS) 202-

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Ystyrir bod angen y Gorchymyn arfaethedig i wahardd aros ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol y darn perthnasol o gefnffordd yr A470 yn North Street, Rhaeadr Gwy, Powys.

Ar hyn o bryd, cyfyngir ar draffig rhag llifo'n rhydd drwy'r dref gan y caniateir parcio ar adegau penodol ar hyd y darn penodol hwn o'r gefnffordd. Mae hyn yn aml yn rhwystro croesffyrdd yr A470/yr A44/y B4518 yng nghanol y dref gan achosi tagfeydd ar hyd y ffyrdd hyn.

Disgwylir i lif y traffig drwy'r dref wella drwy gyflwyno'r gwaharddiad arfaethedig rhag aros ar unrhyw adeg. Bydd gyrwyr sy'n danfon nwyddau a chwsmeriaid yn parhau i allu llwytho a dadlwytho y tu allan i'r eiddo masnachol cyfagos felly ni fydd masnachwyr dan anfantais oherwydd y cynnig.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd (yr A470) (Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Aros) 1993 (O.S. 1993/1667) yn cael ei ddirymu'n rhannol gan y Gorchymyn arfaethedig i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn y Gorchymyn arfaethedig.

THE A470 TRUNK ROAD (NORTH STREET, RHAYADER, POWYS) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is considered necessary to prohibit waiting at any time on the western side of the relevant length of the A470 trunk road at North Street, Rhayader, Powys.

Presently, the free flow of traffic through the town is restricted as parking is permitted at certain times along this particular length of the trunk road. This regularly obstructs the A470/A44/B4518 crossroads in the centre of the town causing tailbacks along these roads.

Introducing the proposed prohibition of waiting at any time is expected to improve traffic flow through the town. Delivery drivers and customers will still be able to load and unload outside the adjacent commercial properties so traders will not be disadvantaged by the proposal.

The Trunk Road (A470) (Rhayader, Powys) (Prohibition of Waiting) Order 1993 (S.I. 1993/1667) will be partly revoked by the proposed Order insofar as it relates to the length of the trunk road described in the proposed Order.